Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel)

Mawrth 2024

## Y cefndir

**1.** Cafodd y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel)[1] (y Bil) ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Tachwedd 2023. Gosododd Gweinidog yr Economi Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol[2] ar y Bil gerbron y Senedd ar 8 Rhagfyr 2023.

**2.** Ar 12 Rhagfyr 2023, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes[3] y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1), sy'n ymwneud â chydsyniad i Gymalau 2, 3 a 4 o'r Bil, at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig[4] a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad[5], gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad o 15 Mawrth 2024 [6].

**3.** Cafodd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2)[7] ar gyfer y Bil ei osod gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar 24 Ionawr 2024. Mae Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â chydsyniad y Senedd i ddiwygio Cymal 4 o'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi. Ar 30 Ionawr 2024 cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Rhif 2 i Bwyllgor yr

[1] Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) [HL] - Biliau Seneddol - Senedd y DU (Saesneg yn unig)
[2] MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL (senedd.cymru)
[3] Y Pwyllgor Busnes (senedd.cymru)
[4] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (senedd.cymru)
[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (senedd.cymru)
[6] cr-ld16220-e.pdf (senedd.cymru)
[7] ld18283-w.pdf (senedd.cymru)

Economi, Masnach a Materion Gwledig i graffu arno. Bu'r Pwyllgor yn ystyried Memorandwm Rhif 1 a Memorandwm Rhif 2 ar 31 Ionawr 2024.

**4.** Ar 20 Chwefror 2024, daeth y Pwyllgor Busnes â’r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 1 a Memorandwm Rhif 2 ymlaen o 15 Mawrth i 8 Mawrth 2024. Roedd hyn yn dilyn argymhelliad a wnaed gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd oherwydd, o ystyried taith seneddol y Bil, ei bod yn rhagweld y byddai angen i’r Senedd drafod Memorandwm Rhif 1 a phleidleisio arno ar 12 Mawrth 2024.

## Gwybodaeth am y Bil

**5.** Mae enw hir y Bil yn dweud ei fod yn Fil i alluogi gweithrediad Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (yr CPTPP) a gwneud darpariaeth arall mewn cysylltiad ag ef. Mae'r Bil drafft yn cynnwys 8 cymal ac 1 Atodlen.

**6.** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod wedi llofnodi cytundeb masnach rydd yr CPTPP ar 16 Gorffennaf 2023.[8] Mae’r CPTPP yn grŵp o 11 o wladwriaethau yn y rhanbarth Indo-Pasiffig - Awstralia, Brunei, Canada, Chile, Japan, Malaysia, Mecsico, Seland Newydd, Periw, Singapore a Fietnam. Dywedodd Ysgrifennydd Busnes a Masnach y DU y rhagwelir mai yn y rhanbarth hwn y bydd y mwyafrif o’r twf byd-eang yn y dyfodol.[9] Disgwylir i’r CPTPP ddod i rym yn ystod ail hanner 2024, ar ôl gwaith craffu seneddol a gweithredu deddfwriaeth, ac unwaith y bydd y DU a Phartïon yr CPTPP wedi cwblhau eu prosesau domestig priodol.

**7.** Mae Memorandwm Rhif 1 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi mai “amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw darparu’r mesurau angenrheidiol ar gyfer newidiadau mewn deddfwriaeth ddomestig er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan gytundeb masnach rydd y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel, sy’n ymwneud â’r broses dod i rym. Yn benodol, mae hyn yn ymwneud â rhwystrau technegol i fasnach, prosesau caffael y llywodraeth, ac eiddo deallusol.” Rhaid i’r Bil fod mewn grym cyn i’r cytundeb ddod i rym yn ffurfiol, er mwyn sicrhau nad yw’r DU yn torri rhwymedigaethau a nodir yn y cytundeb.

**8.** Cynhaliwyd y Cyfnod Adrodd ar y Bil yn Nhŷ’r Arglwyddi ar 16 Ionawr 2024, pan gytunwyd ar un gwelliant gan y llywodraeth. Yna cafodd y Bil ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ’r Cyffredin ar 24 Ionawr 2024, a’i ail ddarlleniad ar 29 Ionawr cyn symud i’r cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ’r Cyffredin o 20 Chwefror 2024.

[8] UK signs treaty to join vast Indo-Pacific trade group as new data shows major economic benefits - GOV.UK (www.gov.uk) (Saesneg yn unig)
[9] UK strikes biggest trade deal since Brexit to join major free trade bloc in Indo-Pacific - GOV.UK (www.gov.uk) (Saesneg yn unig)

## Gwaith craffu'r Pwyllgor a dadansoddiad o'r CPTPP

**9.** Ar yr un pryd ag ystyried Memorandwm Rhif 1 a Memorandwm Rhif 2, bu'r Aelodau hefyd yn ystyried dadansoddiad o'r CPTPP, gan gynnwys dogfen safbwynt Llywodraeth Cymru[10] a gyhoeddwyd ar 26 Hydref 2023, a chymhariaeth o farn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gynnwys y cytundeb.

**10.** Mae dogfen Safbwynt Llywodraeth Cymru yn dweud y canlynol:

> *"The value of total goods trade between Wales and CPTPP was around £2.5bn in the year ending June 2023, of which imports and exports were worth £1.3bn and £1.2bn respectively. Around 5.8% of Wales' total goods exports were destined for CPTPP member countries during this time."*

**11.** Dyma rai pwyntiau allweddol o'r dadansoddiad:

- Amcangyfrifodd asesiad effaith Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023 y bydd yr CPTPP yn cynyddu cynnyrch domestig gros y DU 0.08 y cant, sef tua £1.8 biliwn y flwyddyn, yn yr hirdymor (15 mlynedd).[11] Yn ddiweddarach, diwygiwyd hyn gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i 0.04 y cant ym mis Tachwedd 2023[12];

- Mae Gweinidog Masnach Ryngwladol Llywodraeth y DU[13] wedi nodi'r manteision i Gymru fel rhai sy'n cynnwys hwb posibl i economi Cymru o £110 miliwn yn yr hirdymor; mwy o ddewis i ddefnyddwyr o fwy o nwyddau a fewnforir o wledydd yr CPTPP oherwydd tariffau is; bydd dros 99 y cant o allforion nwyddau presennol y DU i wledydd yr CPTPP yn gymwys ar gyfer tariffau sero; darpariaethau gwasanaeth a digidol yn ei gwneud yn 'symlach' i werthu gwasanaethau'n ddigidol ac yn 'haws' i gwmnïau technoleg Cymru ehangu dramor; a mynediad i farchnadoedd newydd ym Malaysia a Brunei, gydag economïau gwerth dros 340 biliwn mewn cynnyrch domestig gros yn 2022;

- Dywed Gweinidog yr Economi nad yw'r effaith ar fusnesau a defnyddwyr Cymru, ac economi Cymru yn ehangach, yn debygol o fod yn arwyddocaol, ond mae'n cydnabod materion daearwleidyddol ehangach sy'n rhan o benderfyniad Llywodraeth y DU i ymuno â'r bloc. Mae'r Gweinidog yn nodi tri maes eang sydd, yn ei farn ef, yn gwneud ein hymateb i ymuno ychydig yn llai brwdfrydig na'n gweinidogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU;

[10] Y DU yn dod yn aelod o Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel: safbwynt Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU (Saesneg yn unig)
[11] Asesiad effaith o'r DU yn dod yn aelod o grynodeb gweithredol yr CPTPP (fersiwn y we) - GOV.UK (www.gov.uk) (Saesneg yn unig)
[12] Rhagolwg economaidd a chyllidol – Tachwedd 2023 – Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (Saesneg yn unig) (obr.uk)
[13] Llythyr gan y Gweinidog Masnach Ryngwladol - Llywodraeth y DU - 9 Hydref 2023.pdf (senedd.cymru) (Saesneg yn unig)

- Y cyntaf o’r rhain yw derbyn cytundeb sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na thrafod cytundeb newydd o’r dechrau, sy’n golygu ymrwymo i agweddau y gallai Llywodraeth Cymru eu gwrthod fel arall. Mae'n dyfynnu Setliad Anghydfod Gwladwriaethau sy’n Buddsoddi yr CPTPP fel enghraifft;

- Yn ail, dywed y Gweinidog fod budd ychwanegol y cytundeb wedi'i gyfyngu gan y ffaith bod gan y DU gytundebau dwyochrog yn barod â llawer o’r rhai sydd wedi llofnodi’r CPTPP, ac felly mae'n bwysig asesu’r CPTPP ar yr hyn y mae'n ei ychwanegu;

- Yn drydydd, mae'r rhan fwyaf o allforion nwyddau Cymru (57.9 y cant, £11.8 biliwn) i'r UE. Dywed y Gweinidog ei bod yn hanfodol nad ydym yn anghofio pwysigrwydd y farchnad hon, a dywed y dylai cytundebau masnach newydd fod yn gydnaws â’r berthynas fasnachu rhwng y DU a’r UE, a pheidio â’i niweidio. Cred hefyd na ddylai cytundebau osod cynsail ar gyfer cytundebau masnach yn y dyfodol â phartneriaid eraill yn hyn o beth;

- Dywedodd y Gweinidog hefyd fod ymgysylltiad â Llywodraeth y DU ar yr CPTPP wedi bod yn amrywiol. Disgrifiodd ddiffyg ymgysylltiad cychwynnol a wellodd yn ddiweddarach, ond a ddilynwyd gan ymgysylltiad a oedd, ym marn y Gweinidog, yn llai cadarnhaol, yn enwedig o ran trafodaethau ynghylch dadansoddiad Llywodraeth y DU ar effaith y cytundeb.

**12.** Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Weinidog yr Economi yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith paratoi mewn perthynas â’r DU yn dod yn aelod o’r CPTPP, ac unrhyw ddatblygiadau gyda materion a godwyd fel pryderon yn nogfen safbwynt Llywodraeth Cymru. Mae’r Pwyllgor yn bwriadu monitro’r CPTPP yn ystod 2024 wrth iddo ddod i rym, a thu hwnt.

# Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

## Y Rheolau Sefydlog

**13.** Mae Rheol Sefydlog 29 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd Bil y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru:

- at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau deilliadol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol, darpariaethau darfodol, darpariaethau atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu

- sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

## Cymal 2 - Trin Cyrff Asesu Cydymffurfiaeth

**14.** Mae Cymal 1 o'r Bil yn diffinio ystyr yr CPTPP a phrotocol derbyn y DU at ddibenion y Bil. Mae Cymal 2 – Trin Cyrff Asesu Cydymffurfiaeth – yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau i weithredu Erthygl 8.6 o'r CPTPP drwy ddiwygio is-ddeddfwriaeth. Mae Erthygl 8.6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU sicrhau nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn cyrff asesu cydymffurfiaeth yn nhiriogaethau eraill yr CPTPP o blaid cyrff yn nhiriogaeth y DU, neu o blaid cyrff yn un o diriogaethau'r CPTPP dros y rhai yn un o diriogaethau eraill yr CPTPP.

**15.** Mae gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth yn rhoi sicrwydd bod cynhyrchion yn bodloni gofynion rheoliadol perthnasol. Mae enghreifftiau o weithdrefnau asesu cydymffurfiaeth yn cynnwys profi, ardystio ac arolygu. Mae rhai cynhyrchion yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau trydydd parti a elwir yn gyrff asesu cydymffurfiaeth gynnal gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth. Mae rhywfaint o ddeddfwriaeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hyn fod wedi'u lleoli yn y DU, ym Mhrydain Fawr, neu mewn gwlad y mae gan y DU gytundeb cydnabyddiaeth gilyddol perthnasol â hi.

**16.** Pan ddaw'r CPTPP i rym, bydd yn ofynnol i'r DU sicrhau na chaiff cyrff asesu cydymffurfiaeth a sefydlwyd yn nhiriogaethau Partïon yr CPTPP eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a leolir yn ddomestig. Er mwyn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon, rhaid i'r DU ddiwygio ei deddfwriaeth i ganiatáu i gyrff asesu cydymffurfiaeth a sefydlwyd yn nhiriogaethau Partïon yr CPTPP wneud cais am gymeradwyaeth i gynnal asesiad cydymffurfiaeth ar gyfer marchnad Prydain Fawr. Felly, mae'r Bil yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio deddfwriaeth berthnasol i alluogi hyn i ddigwydd.

**17.** Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig. I'r graddau y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio'r pŵer i ddeddfu mewn perthynas â chyrff asesu cydymffurfiaeth mewn meysydd datganoledig (fel bwyd, cynnyrch amaethyddol, hadau, bwyd anifeiliaid) mae gan y Bil ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac mae arno angen cydsyniad o dan Reol Sefydlog 29.

**18.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer Cymal 2. Nid yw Llywodraeth y DU yn credu bod angen cydsyniad, ond nid yw wedi rhoi esboniad am y safbwynt hwn.

**19.** Ym Memorandwm Rhif 1, nid yw Llywodraeth Cymru yn argymell bod y cydsyniad yn cael ei roi i Gymal 2 fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn briodol i'r pŵer yng Nghymal 2 gael ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Ymddengys fod Llywodraeth Cymru eisiau i'r pŵer Cymal 2 fod yn bŵer "cydredol plws" (h.y. pŵer y caiff Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU ei arfer, gyda Gweinidogion y DU yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn arfer y pŵer mewn maes datganoledig).

## Cymal 3 – Proses Gaffael y Llywodraeth

**20.** Mae Cymal 3 yn nodi’r diwygiadau a fydd yn gymwys i reoliadau caffael domestig y llywodraeth i ddeddfu’r rhwymedigaethau ychwanegol sydd wedi eu cynnwys yn yr CPTPP. Mae’r Atodlen i’r Bil yn ymwneud â diwygiadau i reoliadau caffael.

**21.** Pan ddaw’r CPTPP i rym, bydd yn ofynnol i’r DU weithredu ei rheolau ar brosesau caffael teg, tryloyw ac anwahaniaethol. Mae’r Bil yn cyflawni hyn drwy ddiwygio deddfwriaeth gaffael ddomestig, sef Deddf Caffael 2023 a rheoliadau amrywiol, megis Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Er enghraifft:

- Mae’r Bil yn diwygio’r rhestr o gontractau sy’n ‘gontractau esempt’ o dan Ddeddf Caffael 2023 (h.y. y rhestr o gontractau sy’n esempt rhag y fframwaith caffael a sefydlwyd gan Ddeddf Caffael 2023). Mae hyn er mwyn sicrhau y bydd fframwaith Deddf Caffael 2023 yn cydymffurfio â rheolau’r CPTPP ar gyfer caffaeliadau a drefnir ac a ariennir gan sefydliadau rhyngwladol.

- Mae’r Bil yn diwygio Deddf Caffael 2023 i roi effaith i ymrwymiadau mynediad i farchnad y DU i gyflenwyr yr CPTPP.

**22.** Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig. Mae caffael, gan gynnwys y darpariaethau caffael yn y Bil, yn faes sydd wedi’i ddatganoli. Mae gan y newidiadau y mae’r Bil yn eu gwneud i’r fframwaith caffael yng Nghymru ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sy’n golygu bod angen cydsyniad o dan Reol Sefydlog 29.

**23.** Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad mewn perthynas â Chymal 3.

**24.** Mae Llywodraeth Cymru yn argymell rhoi cydsyniad i Gymal 3. Mae’n fodlon, ar y cyfan, ar y newidiadau y mae’r Bil yn eu gwneud i’r fframwaith caffael. Er nad yw’r sefyllfa’n ddelfrydol, dywed Llywodraeth Cymru mai dyma’r “opsiwn gorau i fwrw ymlaen â’r newidiadau technegol, esboniadol hyn i is-ddeddfwriaeth gaffael”.

## Cymal 4 - Dynodiadau Tarddiad a Dynodiadau Daearyddol

**25.** Mae Cymal 4 yn ymwneud â phennod eiddo deallusol yr CPTPP ac yn cwmpasu sawl maes, gan gynnwys patentau, dynodiadau daearyddol, hawlfraint a hawliau cysylltiedig, nodau masnach a dyluniadau. Mae'r bennod yn gosod safonau gwarchod gofynnol yng nghyfundrefnau domestig partïon yr CPTPP.

**26.** Mae dynodiadau daearyddol yn gwarchod enwau cynhyrchion sydd â chydberthynas arbennig â'u tarddle. Mae enghreifftiau Cymreig yn cynnwys Cregyn Gleision Conwy, Tatws Cynnar Sir Benfro a Chig Oen Cymru.

**27.** Mae'r CPTPP yn ei gwneud yn ofynnol i weithdrefnau fod ar waith sy'n caniatáu i bobl wrthwynebu cais am warchod dynodiad daearyddol a cheisio dileu dynodiad daearyddol gwarchodedig. Er mwyn cydymffurfio â hyn, bydd y Bil yn diwygio cyfraith dynodiadau daearyddol ddomestig mewn perthynas â chynhyrchion amaethyddol a bwydydd (bwydydd-amaeth).

**28.** Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig.

**29.** Cred Llywodraeth Cymru fod angen cydsyniad oherwydd bod y maes hwn o’r gyfraith yn ymwneud â bwydydd-amaeth, sydd wedi’i ddatganoli. Fodd bynnag, mae Memorandwm Rhif 1 a Memorandwm Rhif 2 hefyd yn nodi bod cysylltiad agos rhwng y maes hwn o'r gyfraith a’r mater a gedwir yn ôl, sef eiddo deallusol, a bod y dadleuon ynghylch cymhwysedd yn gytbwys iawn. Cred Llywodraeth y DU fod y maes hwn y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd oherwydd ei fod yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl, sef eiddo deallusol. Wrth i’r DU ymadael â’r UE, roedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno dro ar ôl tro ynghylch a oedd y maes hwn o’r gyfraith wedi’i ddatganoli.

**30.** Ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 1, cytunwyd ar welliant i Gymal 4 o’r Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ’r Arglwyddi a fydd yn addasu Erthygl 54 ymhellach. Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi ei fod yn ymwneud â’r “prawf ar gyfer canslo Dynodiad Tarddiad neu Ddynodiad Daearyddol gwarchodedig pan fo enw cofrestredig y Dynodiad Tarddiad neu'r Dynodiad Daearyddol wedi bod yn destun cais newid enw o dan Erthygl 53 (diwygio manyleb cynnyrch), o Reoliad (EU) Rhif 1151/2012”. Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi bod “hwn yn faes cymhleth o’r gyfraith pan fo Dynodiadau Tarddiad neu Ddynodiadau Daearyddol wedi eu cydblethu â’r farchnad amaethyddol gyffredin ac eiddo deallusol ac mae dadleuon cytbwys o ran ble y gallai’r llinell fod mewn cysylltiad â’r hyn a gedwir yn ôl a’r hyn sydd wedi ei ddatganoli.” Barn Llywodraeth Cymru yw bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn briodol mewn perthynas â’r gwelliant beth bynnag, oherwydd ei bod yn amlwg bod Cymal 4 yn effeithio ar feysydd datganoledig bwyd-amaeth.

**31.** Mae’r Pwyllgor yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru bod diben y gwelliannau hyn i Gymal 4 yn ymwneud â bwydydd-amaeth a chynhyrchu bwyd, sy’n faes sydd wedi’i ddatganoli, ac felly mae angen cydsyniad o dan Reol Sefydlog 29.

**32.** Mae Llywodraeth Cymru yn argymell rhoi cydsyniad i Gymal 4 (gan gynnwys y gwelliant y cytunwyd arno yn y Cyfnod Adrodd). Mae Llywodraeth Cymru yn nodi nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac, o ystyried cwmpas cyfyngedig y newidiadau sy’n

cael eu gwneud i'r fframwaith dynodiadau daearyddol a'r cymhlethdodau dan sylw, ei bod yn "gwneud synnwyr i'r ddarpariaeth hon gael ei gwneud yn y Bil hwn ar yr adeg hon".

## Cymal 5 - Hawliau Perfformwyr

**33.** Mae Cymal 5 yn ychwanegu dau fath newydd o warchodaeth mewn cysylltiad â hawliau perfformwyr o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988. Mae hefyd yn diwygio pŵer i gyfyngu ar hawliau perfformwyr mewn achosion penodol. Mae'r pŵer hwnnw yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfyngu ar yr amddiffyniad a roddir i berfformiad ac eithrio mewn achosion pan fo hawliau'r perfformwyr yn bodoli drwy gyfeirio at gysylltiad â'r DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gibraltar.

**34.** Mewn perthynas â hawlfraint a hawliau cysylltiedig, mae'n ofynnol i bob un o Bartïon yr CPTPP ddarparu hawliau penodol i berfformwyr a chynhyrchwyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwarchodaeth fel y nodir yn yr CPTPP. Mae'r CPTPP yn nodi ei bod yn ofynnol i Bartïon roi hawliau i'r canlynol:

- perfformwyr a chynhyrchwyr ffonogramau sy'n wladolion Parti CPTPP arall;
- perfformiadau neu ffonogramau a gyhoeddwyd neu a osodwyd gyntaf yn nhiriogaeth Parti CPTPP arall.

**35.** Mae'r meini prawf cymhwysedd o dan yr CPTPP lle gall perfformwyr gymhwyso ar gyfer hawliau yn eu perfformiadau yn ehangach na'r meini prawf y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd yng nghyfraith y DU. Mae hyn yn golygu na fyddai rhai perfformwyr a ddylai fod yn gymwys i gael eu gwarchod o dan yr CPTPP yn cael hyn oni bai bod newidiadau'n cael eu gwneud i'r gyfundrefn ddomestig. Felly, mae'r Bil yn ehangu'r meini prawf cymhwysedd lle gall perfformwyr fod yn gymwys i gael hawliau yn eu perfformiadau yn y DU.

**36.** Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â hawlfraint ac eiddo deallusol, sy'n faterion a gedwir yn ôl. Felly, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno nad oes angen cydsyniad ar gyfer Cymal 5.

**37.** Mae Cymalau 6, 7 ac 8 o'r Bil yn ymwneud â Rhychwant Tiriogaethol, Cychwyn a'r Enw Byr.

## Goblygiadau ariannol

**38.** Ym mharagraff 44 o Femorandwm Rhif 1, nodir fel a ganlyn:

> *"Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na'r Senedd yn deillio o'r pwerau yn y Bil."*

**39.** Mae paragraff 14 o Femorandwm Rhif 2 yn mynd ymlaen i ychwanegu fel a ganlyn:

> "Er nad oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na'r Senedd sy'n deillio o'r pwerau o dan y Bil, bydd goblygiadau ariannol sylweddol i Gymru o'n perthynas fasnach yn y dyfodol o ran ei heffaith economaidd gyffredinol."

## Barn y Pwyllgor

**40.** Ar ôl ystyried cyngor cyfreithiol, mae'r Aelodau'n cytuno â barn Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad ar gyfer Cymalau 2, 3 a 4 o'r Bil. Mae Llywodraeth y DU yn credu mai dim ond ar gyfer Cymal 3 y mae angen cydsyniad.

**41.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Weinidogion Cymru ynghylch pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal â Llywodraeth y DU i egluro pam nad yw'n ystyried bod angen cydsyniad ar gyfer Cymal 2, lle byddai Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cael pwerau i ddeddfu mewn cysylltiad â chyrff asesu cydymffurfiaeth mewn meysydd datganoledig fel bwyd, cynnyrch amaethyddol, hadau a bwyd anifeiliaid.

**42.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r gwahaniaeth barn parhaus rhwng y ddwy lywodraeth ynghylch a yw Cymal 4 yn ymwneud â bwyd-amaeth a chynhyrchu bwyd, sy'n faes sydd wedi'i ddatganoli, neu eiddo deallusol, nad yw'n faes sydd wedi'i ddatganoli. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cyfraith dynodiadau daearyddol a safonau gwarchod cynhyrchion dynodiadau daearyddol Cymru yn hanfodol bwysig i economi Cymru. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru bod diben Cymal 4 yn ymwneud â bwydydd-amaeth, a bod cyfraith dynodiadau daearyddol yn ymwneud yn sylfaenol â bwyd a chynhyrchu bwyd, sy'n faes sydd wedi'i ddatganoli. Felly, mae'n cytuno â barn Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad ar gyfer Cymal 4 o'r Bil, er ei fod hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r cymal hwn o'r Bil.

**Conclusion 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i Gymalau 3 a 4 o'r Bil. Fodd bynnag, oherwydd yr amser cyfyngedig a gynigiwyd i graffu ar Femorandwm Rhif 1, nid yw'r Pwyllgor mewn sefyllfa ar hyn o bryd i wneud argymhelliad ynghylch cydsyniad y Senedd i Gymal 2 o'r Bil.